# COED MEWN CAEAU

Mae porfeydd coediog agored yn ffordd draddodiadol o reoli tir, sy'n cyfuno ardaloedd pori â choed gwasgaredig neu goed wedi'u clystyru. Mae'r system hon yn hawdd i'w chynnal, ac yn cynnwys integreiddio coed yn y dirwedd sy'n cael ei ffermio, gan ychwanegu gwerth i fyd natur ac i'ch busnes fferm.



Mae darparu cysgod a lloches ar draws y cae yn sicrhau y gall da byw barhau i bori fel yr arfer yn ystod tywydd eithafol, gan helpu i gynnal cynnyrch a chynyddu pwysau byw. Mae lloches yn arbennig o bwysig i dda byw ifanc, gan y gall leihau amlygiad i dywydd eithafol a chynyddu cyfraddau goroesi anifeiliaid sydd newydd eu geni. Gall y ficrohinsawdd sy'n cael ei chreu gan goed mewn caeau ymestyn y tymor pori a'i gwneud hi'n haws weithiau i dda byw dreulio'r gaeaf. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y gall porfeydd coediog helpu i ddal carbon, lleihau erydiad pridd, gwella draeniad pridd a chreu tirwedd ddeniadol sy'n cynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt.

## MANYLEB DYLUNIO

Mae maint y bylchau rhwng y coed yn amrywio yn dibynnu ar nodau eich fferm, y dirwedd ac amodau amgylcheddol eraill. Mae dwyseddau plannu yn amrywio o 25 o goed agored/ha i glystyrau o goed sy'n cynnwys hyd at 200 o goed/ha. .

**Rhywogaethau coed:** nodwch pa rywogaethau o goed brodorol sydd eisoes yn tyfu ar eich tir. Ystyriwch blannu'r genhedlaeth nesaf ochr yn ochr â choed aeddfed sydd eisoes yno. Rhywogaethau brodorol o darddiad lleol fydd â'r cyfle gorau i ffynnu.

**Diogelu coed:** Mae angen diogelu coed ifanc drwy atal da byw rhag eu bwyta neu rwbio yn eu herbyn. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llewys coed neu osod polion a rheiliau o'u hamgylch.



| | COEDEN SAFONOL | COED CANOLRADDOL | LLWYNI PORI |
|---|---|---|---|
| **CYNEFINOEDD TIR UCHEL** | | | |
| Yn nhiroedd uchel Cymru, mae'r ffriddoedd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd ffermwyr a'r byd natur fel math o borfa goediog dwysedd isel. Mae'r safleoedd hyn yn aml yn gymysgedd o gynefinoedd, gan gynnwys prysglwyni, llwyni coetir mwy trwchus, glaswelltiroedd mwy agored a rhostiroedd â choed gwasgaredig. P'un a ydych chi'n bwriadu ehangu cynefin ffridd ar eich fferm, neu blannu coed mewn caeau sy'n cael eu rheoli'n fwy, edrychwch ar unrhyw goed brodorol sydd eisoes ar eich safle, gan y bydd hyn yn fan cychwyn er mwyn gweld pa fath o rywogaethau a allai ffynnu yno. | Coed Derw Di-goes, Aethnenni, Gwern, Pinwydd yr Alban, Llwyfenni Llydanddail, Pisgwydd Dail Bach | Bedw Gyffredin, Criafol, Coed Afalau Surion, Coed Ceirios yr Adar | Drain Gwynion, Drain Duon, Coed Celyn, Coed Cyll, Helyg, Helyg Llwyd, Ysgaw |
| **CYNEFINOEDD TIR ISEL** | | | |
| Mae amrywiaeth o wahanol fathau o gynefinoedd yn nhiroedd isel Cymru, gan gynnwys priddoedd gwlyb, priddoedd dwrlawn yn ôl y tymor, priddoedd asidig mwy sych, a phriddoedd bas-gyfoethog. Mae'n bwysig dewis rhywogaethau sy'n addas ar gyfer amgylchiadau eich fferm. Gall edrych ar goed brodorol sydd eisoes yn tyfu ar eich safle fod yn fan cychwyn da er mwyn gweld pa fath o rywogaethau a allai ffynnu yno. | Coed Derw Di-goes, Aethnenni, Masarn Bach, Pisgwydd Dail Bach, Gwern, Llwyfenni Llydanddail, Poplys Duon | Bedw Gyffredin, Criafol, Coed Afalau Surion, Coed Ceirios Gwyllt | Drain Gwynion, Drain Duon, Coed Celyn, Coed Cyll, Helyg, Helyg Llwyd, Ysgaw |
| **PAILL A FFRWYTHAU ER MWYN BYWYD GWYLLT** | | | |
| | Coed Gellyg Gwyllt | Ysgaw, Coed Afalau Surion, Helyg | Drain Duon, Llwyni Mwyar Duon, Coed Rhosod, Mintys Gwyllt, Eiddew |

Os oes gennych ddiddordeb mewn plannu coed ar ffermydd a chyfleoedd eraill mae rhagor o wybodaeth ar **woodlandtrust.org.uk/plant** neu cysylltwch â ni **plant@woodlandtrust.org.uk**

Diolch i Dr Lindsay Whistance am ei chyfraniad.
Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL
**0330 333 3300** **woodlandtrust.org.uk**
Mae logo Coed Cadw yn nod masnach cofrestredig. Mae Coed Cadw yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 294344 a'r Alban SC038885. Cwmni dielw cyfyngedig drwy warant. Cofrestrwyd yn Lloegr rhif 1982873.

Mae'r daflen hon wedi'i gwneud yn bosibl diolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

DC00559